OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2976 (Cy.247)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

Gwnaed - - - -	*15 Rhagfyr 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*15 Rhagfyr 2010*
Yn dod i rym - -	*5 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, y mae'r pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau hynny a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**).

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos yn hwylus i Weinidogion Cymru bod cyfeiriadau a fewnosodir gan y Gorchymyn hwn yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006)(**4**) at Benderfyniad y Comisiwn 2008/840/EC ynglŷn â mesurau brys i atal dyfodiad *Anoplophora chinensis* (Forster) i'r Undeb Ewropeaidd a'i ledaeniad o fewn yr Undeb Ewropeaidd(**5**) yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Penderfyniad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010. Daw i rym ar 5 Ionawr 2011 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1), (2) a (5) gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) a pharagraff 8 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 177(1) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2), a pharagraff 12 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd adran 2(3) gan erthygl 2(1) o O.S. 1990/2371 ac Atodlen 1 i'r offeryn hwnnw.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 (p. 8), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**4**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2716 (Cy. 229), O.S. 2007/3305 (Cy. 292), O.S. 2008/2781 (Cy. 248), O.S. 2008/2913 (Cy. 257), O.S. 2009/1376 (Cy. 137) ac O.S. 2010/1795 (Cy. 171).

(**5**) OJ Rhif L 300, 11.11.2008, t.36; fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2010/380 OJ Rhif L 174, 9.7.2010, t.46.

Diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2(1)(**6**), ar ôl y diffiniad o "Decision 2007/433/EC", mewnosoder—

""Decision 2008/840/EC" means Commission Decision 2008/840/EC on emergency measures to prevent the introduction into and the spread within the European Union of *Anoplophora chinensis* (Forster), as amended from time to time;".

(3) Yn y tabl yn Atodlen 3(**7**), yn lle'r cofnod yng ngholofn (3) sy'n cyfateb i eitem 10, rhodder—

"Belarus, Moldova, Russia, Turkey, Ukraine and any third country not in mainland Europe, other than Egypt, Israel, Libya, Morocco or Tunisia".

(4) Yn y tabl yn Atodlen 3, ar ôl eitem 15, mewnosoder y testun a gynhwysir yn y tabl canlynol—

"16	Plants for planting, other than seeds, of Acer spp. until the end of April 2012	China.".

(5) Yn y tabl yn Atodlen 4(**8**), Rhan A—

(a) yn lle'r cofnod yng ngholofn (2) sy'n cyfateb i eitem 52, rhodder—

"Soil or growing medium that—

(a) is attached to, or accompanies, plants for the purpose of sustaining the vitality of those plants;

(b) consists—

(i) wholly or partly of soil or any solid organic substance such as parts of plants or humus (including peat or bark); or

(ii) partly of any solid inorganic substance; and

(c) originates from—

(i) Belarus, Georgia, Moldova, Russia, Turkey or the Ukraine; or

(ii) any country outside Europe, other than Algeria, Egypt, Israel, Libya, Morocco or Tunisia"; and

(b) for item 81, substitute the text contained in the following table—

"**81.** Specified plants within the meaning of Article 1(a) of Decision 2008/840/EC originating in China	Without prejudice to the requirements in Schedule 3, items 4, 12 and 14 and items 11, 12, 19, 20, 22, 23, 27, 28, 29, 30, 48, 50, 51, 52, 55, 60, 61, 64, 65 and 70 of Part A of this Schedule the plants must be accompanied by an official statement containing the information in point (1) of Section I(B) of Annex 1 to Decision 2008/840/EC and the place of production of those plants must comply with the requirements set out in Article 2a(1)(c) of Decision 2008/840/EC
82. Specified plants within the meaning of Article 1(a) of Decision	Without prejudice to the requirements in Schedule 3, items 4, 12 and 14 and items 11,

(**6**) Gwnaed diwygiadau i'r erthygl hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**7**) Gwnaed diwygiadau i Atodlen 3, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**8**) Gwnaed diwygiadau i Atodlen 4, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.